

Pris: 40c

# Papur Pawb

Rhif 339

Mai 2008

## Galwad Frys yn Nghwm Eleri

Brynhawn Mercher, 16 Ebrill cafodd Mr David Elwyn Griffiths, Nant Ddu yng Nghwm Eleri, ddamwain ddirifol wrth lifio coed a bu'n rhaid galw am wasanaeth brys yr Ambiwylans Awyr i'w gludo i Ysbyty Treforus, Abertawe. Llwyddodd Mr Evan Lynn, Glan yr Afon, Pontrhyd-y-geifr, i dynnu'r llun hwn o'r hofrennydd uwchben Coed Cwmere. Trwy gyd-digwyddiad llwyr, mae Mrs Barbara Jenkins a fagwyd yng Nghwmere wedi bod wrthi'n casglu arian tuag at y gwasanaeth Ambiwylans Awyr mewn gyrfa chwist bob nos Lun ym Machynlleth. Hyd yma, llwyddwyd i gasglu cyfanswm o £1200. Bydd y casgliad hwnnw'n dal yn agored tan ddiwedd Mai, ac os oes unrhyw un o'n darllenwyr am gyfrannu, yna dylid anfon at Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont.

Mae'n dda iawn gennym glywed fod Mr Griffiths gartref ac yn gwella erbyn hyn.



## Cnoi Cil ar yr Etholiad

Nid oedd dim yn annisgwyl yng nghanlyniad etholiad y Cyngor Sir yng Ngheulanamaesmawr. Ailetholwyd y Cyngorydd Ellen ap Gwynn gyda chyfanswm o 527 o bleidleisiau. Wrth longyfarch Ellen y mae'n briodol inni ddiolch am ei chyfraniad yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf a dymuno'n dda iddi yn y gwaith o gynrychioli'r rhan hon o ogledd Ceredigion ar y Cyngor yn ystod y pedair blynedd nesaf. Yn sicr, yr ydym yn ddyledus iawn iddi am arwain yr ymgyrch i gadw'r gwasanaeth post yn Nhal-y-bont, ac nid oes ond gobeithio y bydd pawb ohonom yn ei chefnogi hi a'r Grŵp Gweithredu Lleol fel y bydd yr ymdrech honno'n dwyn ffrwyth.

Siomedig iawn oedd ymgyrch ei gwrthwynebydd. Mae'n warthus o beth na welodd yn dda i'w gyflwyno ei hun i'r etholwyr drwy fynd o ddrws i ddrws nac ychwaith drafod ei syniadau a'i safbwyntiau â'r etholwyr mewn unrhyw ohebiaeth. Os nad yw ymgeisydd o ddirifi ynghylch ymladd etholiad, yna pam sefyll o gwbl? Os oes ganddo bolisiau a safbwyntiau, onid yw'n hollbwysig fod yr etholwyr yn cael gwybod amdanynt? Y peth lleiaf y gall yr etholwyr ei ddisgwyl yw derbyn taflen drwy'r drws yn amlinellu'r safbwyntiau hynny, yn ogystal â chael rhywfaint o fanylion personol am yr ymgeisydd ei hun.

Pa mor ddoeth tybed oedd gosod ymgeisydd i sefyll mewn etholiad os nad oedd yn barod i gymryd yr etholiad hwnnw o ddirifi? Fel trethdalwyr mae'r etholwyr yn haeddu gwell na hyn, oherwydd mae cynnal etholiad yn costio'n ddrud, rhwng argraffu papurau pleidleisio, llogi canolfannau am y dydd a chyflogi pobl i'w rhedeg, yn ogystal â thalu am warchod y blychau a'u cludo i Aberaeron. Ond dyna yw pris democratiaeth, clywaf chi'n dweud. Gwir y gair, wrth gwrs, ond gadewch i ymgeisydd pob plaid wleidyddol wneud ei ddyletswydd democrataidd ac ymladd etholiad fel petai ei galon yn y gwaith! Mae dewis peidio â chyfathrebu â'r etholwyr yn sarhad arnynt.

## Ysgol yn Colli Athro

Derbyniodd rhieni Ysgol Gymunedol Tal-y-bont llythyr ddechrau'r mis hwn oddi wrth Gadeirydd y Corff Llywodraethwyr, Catrin M. S. Davies, yn eu hysbysu y bydd yr ysgol yn colli un aelod o staff ar ddiwedd Tymor yr Haf. Oherwydd y wasgfa ar gyllideb yr ysgol am fod nifer y plant wedi gostwng, sylweddolodd y Llywodraethwyr nad oedd bellach modd osgoi colli swydd athro. Cynigiwyd pecyn ymddiswyddo gwirfoddol, a chyhoeddwyd bod Mr Geoff Davies y Dirprwy Brifathro wedi penderfynu derbyn y pecyn. O ganlyniad bydd yn gadael yr ysgol yn yr haf ar ôl deunaw mlynedd a hanner o wasanaeth. Dywed Catrin M. S. Davies yn ei llythyr at y rhieni: 'Hoffwn ddiolch iddo am ei waith diflino dros yr ysgol ac fel llywodraethwr, a bu ei gyfraniad i'r corff yn bwysig iawn fel cynrychiolydd y staff dysgu.'

Fel y gwyddom yn rhy dda, nid yw sefyllfa Ysgol Tal-y-bont yn unigryw o bell ffordd, gan fod swyddi llawer o athrawon yn y fantol yn siroedd gwledig Cymru o ganlyniad i'r gostyngiad cyffredinol yn nifer y plant. Bydd yn chwith iawn meddwl am yr ysgol heb Mr Davies ym mis Medi, ond y mae *Papur Pawb* yn dymuno'r gorau iddo yn y dyfodol gan ddiolch am y blynyddoedd o wasanaeth gwerthfawr a roddodd i'r ysgol a'r ardal.

## Achub y Post

Os na chawsoch gyfle i daro gair ar bapur eto i bwysu ar awdurdodau'r Swyddfa Post i beidio ag israddio ein Swyddfa Bost Leol, y mae gennych tan 19 o Fai i anfon llythyr at Steve Geraty, Network Development Manager, c/o National Consultation Team, FREEPOST CONSULTATION TEAM, neu e-bost at [consultation@postoffice.co.uk](mailto:consultation@postoffice.co.uk)

Dosbarthwyd taflen gan y Grŵp Gweithredu Lleol yn ein hannog i ddefnyddio holl wasanaethau'r post yn lleol, a'r neges amlwg ydyw 'Defnyddiwch y Swyddfa Bost leol neu fe'i collwch.'

# Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Geraint Evans (01970) 832473

Tynnu Iuniau: Garnwen, Tal-y-bont post@garnwen.org  
Teipyddes: Cysyllter â golygyddion y mis.  
Carys Briddon

**Bont-goch:** Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566  
**Parsel Henlllys:** Dilys Morgan, Alltgoch 832498  
**Eglwysfach:** Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais (01654) 781312  
**Taliesin:** Mai Leeding, Glannant, Taliesin 832672  
**Tal-y-bont:** Aileen Williams, Maesmeillion 832438  
Kathleen Richards, Y Bryn 832201  
**Tre'r Ddôl** Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl 832429  
Janet Evans, Cefngweiriog (01654) 781260  
**Maes y Deri** Eirlys Jones, 91 Maes y Deri 832483

**CYMDDEITHAS PAPUR PAWB**  
**Cadeirydd:** Gwenallt Llwyd Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont 832660  
**Is-gaderydd** Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448  
**Ysgrifennydd:** Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont 832384  
**Trysorydd:** Gwyn Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont 832560  
**Aelodaeth:** Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont 832438  
**Hysbysebion:** Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais (01654) 781312  
**Plygwyr:** Lyn Hammonds, Beti Jenkins, Dafydd Parri, Gwenllian Parry-Jones  
**Dosbarthwyr:** Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Eirlys Jones (Tanysgrifiadau)

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth  
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

# DYDDIADUR

## MAI

## MEHEFIN

11

Bethel 10am a 5.30pm yng Nghapel y Morfa, Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion

Nasareth Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion

Rehoboth Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion

Eglwys Dewi Sant 2.30 Gosber a Chymun

11-17 Mai

Wythnos Cymorth Cristnogol

18

Bethel 10 Gweinidog

Nasareth 10 Tudor Davies

Rehoboth 10 Bugail Undebol y Garn

Eglwys Dewi Sant 11 Yr Offeren

19

Merched y Wawr, Tal-y-bont a'r Cylch

Cyfarfod Blynyddol a Gemau

22

Sefydliad y Merched, Tal-y-bont 'Resolutions', 7.15pm

25

Bethel 10 Terry Edwards

Nasareth 10 Uno ym Methel

Rehoboth 3.30 Bugail

Eglwys Dewi Sant 9.30 Matins

1

Bethel 2 Gweinidog

Nasareth 11.15 Bugail (C)

Rehoboth 10 Gwyn Davies

Eglwys Dewi Sant 2.30 Yr Offeren

2

Pwyllgor Sioe Tal-y-bont

Neuadd Goffa 8.00pm

6

Merched y Wawr, Tal-y-bont a'r Cylch

Taith i Siop Ji-binc, Aberaeron

8

Bethel 10 Gweinidog

Nasareth 10 Glyn Morgan

Rehoboth 10 Bugail (C)

Eglwys Dewi Sant 2.30 Gosber a Chymun

11

Pwyllgor y Neuadd

8.00pm Neuadd Goffa Tal-y-bont

15

Bethel 10 Sul Undebol yr Ofalaeth (Gerlan)

Nasareth 10 Ifan Mason Davies

Rehoboth 5 Richard Lewis

Eglwys Dewi Sant 11 Yr Offeren

# Llythyrau

Annwyl Olygydd,  
Yn ystod cyfnod yr Eisteddfod Genedlaethol eleni fe fydd Gwersyll yr Urdd Caerdydd yn agor ei ddrysau i'r cyhoedd er mwyn cynnig llety i deuluoedd a grwpiau drwy gydol yr ayl.

Canolfan breswyl ddinesig yw'r Gwersyll ac fe'i lleolir yn un o adeiladau mwyaf cyffrous Ewrop, Canolfan Mileniwm Cymru, yng nghanol bwrlwm Bae Caerdydd. Drws nesaf i adeilad y Senedd, mae'n lle cyfleus ar gyfer maes yr Eisteddfod ac yn ddelfrydol i flas diwylliant prifddinas Cymru a chael blas ar amrywiaeth eang o weithgareddau o amgylch y bae.

Mae lle i dros 150 o bobl i aros yn y Gwersyll mewn ystafelloedd *en-suite* lle gall 6 pherson gysgu ynddynt. Mae'n lle perffaith hefyd i grwpiau, corau a phartion, gyda nifer o ystafelloedd ymarfer at ddefnydd preswylwyr, ac mae Neuadd yr Urdd, sy'n neuadd fawr amlbwrpas, yn ddelfrydol i grwpiau o ddawnsywyr.

Am y cyfnod hwn yn unig mae Gwersyll yr Urdd Caerdydd yn cynnig pris arbennig o £125 y noson am ystafell ar gyfer hyd at 6 pherson gan gynnwys brecwast llawn yn y pris!

Mae llefydd, wrth reswm, yn llenwi'n gyflym, felly cysylltwch â'r Gwersyll yn fuan ar 029 2063 5678 neu ebostiwrch caerdydd@urdd.org.

Cofiwch, y cyntaf i'r felin...!

Tim Edwards,  
Canolfan yr Urdd

Annwyl Olygydd,  
Fy enw yw Gerwyn Jones ac rwyf yn gweithio i Bartneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian (PRC) fel Swyddog Datblygu Rheilffordd - am ragor o wybodaeth am y PRC gweler [www.leinycambrian.co.uk](http://www.leinycambrian.co.uk). Efen o fy swydd yw datblygu a gwireddu cynllun marchnata blynyddol i hyrwyddo teithio ar drenau rheilffyrdd y Cambrian, sef y 'Brif Lein' rhwng Aberystwyth ac Amwythig a 'Lein yr Arfordir' rhwng Machynlleth a Phwllheli.

Eleni fel rhan o'r cynllun marchnata rwyf wedi bod yn cydweithio gydag awdur lleol, Mr Laurence Main, i ddatblygu cyfres o bedair taflen (yn y lle cyntaf) o lwybrau hunandywysedig rhwng gorsafoedd ar rwydwaith y Cambrian.

Y pedair taith gyntaf fydd:

**Rhif 1** - Y Borth - Aberystwyth (ar hyd Llwybr Arfordirol Ceredigion)

**Rhif 2** - Llwyngwrl - Abermaw

**Rhif 3** - Caersws - Y Drenewydd (ar hyd Llwybr Hafren)

**Rhif 4** - Cricieth - Porthmadog  
Mae'r taflenni ar gael yn rhad ac am ddim o orsafoedd rheilffyrdd ac o Ganolfannau Croeso, neu trwy gysylltu'n uniongyrchol â mi. Gyda'r gofidion am effaith amgylcheddol teithio a chostau tanwydd yn codi yn ogystal â'r diddordeb mewn gweithgareddau awyr agored iachus, mae 'Crwydrau'r Cambrian' yn cynnig ffordd wych o fwynhau cefn gwlad ac arfordir Canolbarth Cymru mewn modd rhad a chynladwy.

Yn gywir,  
Gerwyn Jones  
Trenau Arriva Cymru, Heol y Doll, Machynlleth SY20 8BL  
[Gerwyn.Jones@arrivatw.co.uk](mailto:Gerwyn.Jones@arrivatw.co.uk)

## Côr Merched Aberystwyth a Chyfeillion

Arweinydd: Christine Reynolds

Dydd Iau, 22 Mai  
7.30 o'r gloch  
Eglwys Sant Mihangel,  
Eglwys-fach

Mynediad: £5.00

## EGLWYS ST. PEDR ELERCH

GWIN, CAWS, A CHÂN  
(yn yr awyr agored os bydd y tywydd yn caniatáu)

## CÔR ABC

NOS WENER  
27 MEHEFIN  
2008  
7.00 yr hwyr  
TOCYNNAU: £6.00  
PLANT: £1.50

Ffrindiau Cartref Tregerddan  
Barbeciw yn y Cartref  
Nos Wener, 13 Mehefin  
6.30  
Croeso cynnes i bawb

Golygydd y rhifyn hwn oedd Bleddyn Huws, a dyluniwyd gan Iolo. Golygydd y rhifyn nesaf fydd Geraint Evans (832 473; [post@garnwen.org.uk](mailto:post@garnwen.org.uk)), Geraint Pugh a Siân Evans. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn deunydd yw dydd Gwener 7 Mehefin a bydd y papur ar werth ddydd Gwener 14 Mehefin.



## CYWIRIAD

Roedd yr *ensemble* pres y mae Peter Jones yn aelod ohono yn fuddugol yn Eisteddfod Sir yr Urdd, nid yn ail fel y cyhoeddwyd yn rhifyn Ebrill o *Papur Pawb*. Pob lwc i'r *ensemble* ac ymddiheurwn am y camgymeriad.

## GENEDIGAETH

Llongyfarchiadau mawr i Hayley ac Alun, Gwynfryn, Tal-y-bont, ar enedigaeth mab, sef Gethin Elis, brawd bach i Heledd ac Eli.

Llongyfarchiadau hefyd i Dorothy a Tony Green, Pantglas, Tal-y-bont, ar enedigaeth wyres fach, sef merch i Kelly a'i gâr, Mathew Bishop.

## DIOLCH

Dymuna Mrs Margaret Evans ddiolch yn gynnes am yr holl gardiau a'r cyfarchion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn gant. Diolch hefyd am y gofal eithriadol gan staff y Coach House, Plas Cwmcynfelin, Clarach.

## CYRRAEDD OEDRAN TEG

Bydd Mr Evan Owen Jones, Berthlwyd, Tal-y-bont, yn dathlu pen-blwydd arbennig yn 95 oed ar Fai 21ain. Bydd yn dathlu gartref ar yr aelwyd lle y mae'n cael pob gofal gan y teulu. Mr Jones, yn sicr, yw un o bobl hynaf ardal *Papur Pawb* erbyn hyn, ac yr ydym yn anfon eich cyfarchion cynnes ato. Hefyd yn dathlu cyrraedd oedran teg y mae Mr Jim Morgan, Maesmawr, Tal-y-bont. Dymunwn bob dymuniad da iddo yntau ar ei ben-blwydd yn 90 oed.

## CYRRAEDD YR HANNER CANT

Dymuniadau gorau i Ifan Astley, Y Gorlan, Tal-y-bont, a ddathlodd ei ben-blwydd yn hanner cant ddechrau Mai. Gobeithio iddo fwynhau'r trip pysgota ar ddiwrnod ei ben-blwydd!

## PEN-BLWYDD HAPUS

Dymuniadau gorau i Gwladys Evans, Penrhiw, Bont-goch, a ddathlodd ben-blwydd arbennig iawn yn ddiweddar.

Bu Enid Evans, Trem-y-rhos, Bont-goch, hefyd yn dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar, ac anfonir ein dymuniadau gorau ati.

Anfonir cyfarchion hefyd i Gwyndaf Evans, 94 Maesyderi, Tal-y-bont, a fu'n dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

## DIOLCH

Dymuna Ray Evans, Rhif 1 yr Hen Sinema, Heol Powys, Machynlleth, ddiolch i bawb a anfonodd gardiau, arian, ac anrhegion iddo ar ei ben-blwydd

# Pobl a Phethe



## PRIODAS

Llongyfarchiadau i Gwenan, merch Carys a Dilwyn Jones, Llys Eleri, Tal-y-bont, ac Aled Jones o'r Waunfawr, Sir Gaernarfon, ar eu priodas yng Nghapel Rehoboth, Taliesin, ar Ebrill 5ed. Treuliodd y ddau eu mis mêl yn teithio yn Sri Lanka ac Ynysoedd y Maldives. Pob dymuniad da i'r ddau.

yn 70 oed ym mis Mawrth. Diolch hefyd i'r teulu am y parti a drefnwyd i ddathlu'r achlysur. (Diolch am y rhodd ariannol i *Bapur Pawb* gan un o ofalwyr Mr Evans - Gol.)

## RHAGLEN 4 WAL

Diddorol oedd cael cyfle i weld 'Ysgubor Lawen', sef cartref Owain a Karen Elli a'u plant, sy'n hen sgubor wedi ei hadnewyddu ym Mro Morgannwg, ar y rhaglen 4 Wal ar S4C. Mae Owain yn fab

i Glyn a Gill Saunders Jones, Fagwyr.

## CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn â Dai Dowsett, Is-y-Coed a Jenny Fothergill, Minafon, Tal-y-bont ar golli mam annwyl. Hefyd â Mr Dowsett sydd bellach wedi ymgartrefu yn y Lanfa, Aberystwyth.

Cydymdeimlwn hefyd gyda Mrs Doris Pearce, Maesyderi, Tal-y-bont, ar farwolaeth sydyn ei chyfnither, Mrs Nansi Davies, Cwmlinau.

## POB DYMUNIAD DA

Anfonwn ein cyfarchion cynhesaf at Arvid Parry Jones a ddathlodd ben-blwydd arbennig ddechrau Mai. Aderyn bach oedd yn dweud y bydd cwsmer arall yn ciwio yn y Post yn awr ar ddiwrnod pensiwn!

## GWELLHAD BUAN

Anfonwn ein cofion at Mrs Annie Watkin, Brynawel, Taliesin, ar ôl y ddamwain pan dorrodd ei braich. Gobeithio y bydd yn ôl gartref yn fuan.

Anfonwn gofion hefyd at Mrs Myfanwy Rowlands, Hafodlasau, Taliesin, sy'n derbyn triniaeth ar hyn o bryd, ac at Karen Evans, 10 Maesyderi, Tal-y-bont, ar ôl iddi dderbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Bronglais.

## GARDDWR ADDAWOL

Llongyfarchiadau calonnog i Keith Evans, Pen-y-graig, Bont-goch, ar ei lwyddiant diweddar yn ennill nifer o dystysgrifau galwedigaethol (NVO) mewn garddwriaeth gyda chlod arbennig am ei waith. Pob dymuniad da iddo ar gyfer y dyfodol.

## DAU GERDDOR

Llongyfarchiadau i Elis Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont, am lwyddo yn ei arholiad trwmpe Gradd 4, ac i Gwenno Evans, Tanllan, Llangynfelyn, am lwyddo yn ei harholiad ewffoniwm Gradd 3.

## DWY YN DATHLU'R DEUGAIN

Llongyfarchiadau i Gaenor Jones, Pensarn, Tal-y-bont, ac i Ceris Williams ei chymdoges ym Mhenrhos, y ddwy yn dathlu eu pen-blwydd yn ddeugain oed. Cafodd Ceris barti syrpreis yng nghlwb golff Capel Bangor.

## PRIODAS

Pob dymuniad da i Hayley a Mathew, Ystordy, Taliesin, ar eu priodas yn Aberystwyth ar 3ydd o Fai.

## LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Esther, Llys Alaw ar ddod yn drydydd yn yr unawd offerynnol dan 12 oed yn Eisteddfod Maenclochog yn canu'r delyn.

## DIOLCH

Dymuna Rhian, Bob, Aled a Gwenan a'r teulu (Wrecsam) ddiolch o galon i bawb am y cardiau a'r galwadau ffôn yn mynegi cydymdeimlad â ni ar golli ein tad, Lewis Evans. Bu'r cyfan yn gysur mawr inni. Anfonwn ein cofion at bawb. (Diolchir am gyfraniad ariannol tuag at *Bapur Pawb* - Gol.)

# C.Ff.I. Tal-y-bont

Dros y mis diwethaf bu CFFI Tal-y-bont yn brysur yn cystadlu mewn gwahanol gystadlaethau, amrywiol ddiwyddiadau a gweithgareddau. Ar ddechrau'r mis cynhaliwyd Diwrnod Maes y Sir ym mart Tregaron ar ddydd Sadwrn 5 Ebrill. Cafwyd cryn lwyddiant mewn nifer o gystadlaethau. Dyfarnwyd Tal-y-bont yn 2il ar ddiwedd y dydd! Dyma'r canlyniadau:

## Tîm Barnu Stoc Hŷn (dan 26)

2il: Geraint ac Eifion Jenkins, Elgan Evans ac Aled Llŷr

## Tîm Barnu Stoc Iau (dan 18)

2il: Tîm A = Danielle Price, Steffan Nutting, Carwyn Thomas a Rhydian Evans (Neuadd Fawr)

## Unigolyn Gorau dan 18

3ydd: Dewi Jenkins (Tîm B)

## Unigolyn Gorau dan 26

1af: Geraint Jenkins

## Ffensio

2il: Aled Llŷr, Rhydian ac Elgan Evans

## Sialens ATV

1af: Gareth Jenkins a Rhys Richards

Llongyfarchiadau i Geraint ar ennill cwpan Stocman y Flwyddyn ac i Gareth a Rhys ar ennill cwpan *Mid-Ceredigion A.T.B. Group* yn y gystadleuaeth Sialens ATV. Aeth Geraint, Dewi, Gareth a Rhys ymlaen i gynrychioli'r sir yn Niwrnod Maes Cymru, a gynhaliwyd yn Llanelwedd ar ddydd Sadwrn 26ain Ebrill. Roedd Geraint yn aelod o'r tîm barnu stoc hŷn, a Dewi yn y tîm iau. Daeth y ddau dîm yn y 3ydd safle. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ohonoch.

Cafwyd cyfarfod i drafod cystadlaethau'r Rali ar nos Fawrth 8fed Ebrill. Y thema eleni yw 'Y Byd Mewn Undod'. Cynhelir y Rali eleni gan glwb Pontshan ar ddydd Sadwrn, 7 Mehefin.

Y gystadleuaeth arall a gynhelir yn flynyddol yw'r Gala Nofio, a gynhaliwyd eleni ar nos Wener 11eg Ebrill, i lawr yn Aberaeron. Dyma'r canlyniadau:

## Ras Broga

1af Carwyn Thomas

## Ras Gyfnewid

3ydd Geraint Jenkins, Carwyn Thomas, Rhydian Evans (Tynant) a Rhydian Evans (Neuadd Fawr)



Aelodau yn profi offer y Bad Achub

Wedi'r holl gystadlu cafwyd cyfnod o fwynhau. Bu Erwyd Howells yn ein diddanu gyda'i gasgliad o hen offer fferm ar y 15fed o'r mis. Rwyf yn siâr i amryw o'r aelodau iau, a hŷn hefyd, ddysgu tipyn am y cyfnod a fu.

Y nos Fawrth ganlynol bu'r aelodau yn ymweld â Bad Achub y Borth. Cafwyd croeso gan y criw. Cawsom ein tywys o amgylch yr adeilad newydd, cael cyfle i weld y cwch, a'r holl offer a ddefnyddir ganddynt mewn gwahanol achosion. Cafodd rhai o'r aelodau y cyfle i wisgo siwt addas mae'r criw yn ei gwisgo i fynd allan i'r môr. Yn dilyn hyn, cafodd pawb y cyfle i fynd o amgylch adeilad Gwylwyr y

Glannau, sydd drws nesaf i'r Bad Achub. Unwaith eto gwelsom yr holl offer sydd ganddynt hwythau hefyd, a sut y defnyddir hwy mewn achosion o argyfwng.

Dydd Sul ola'r mis bu llond bws ar daith i Telford. Nid i siopa, ond yn hytrach i ymarfer eu dawn o sglefrio ar yr iâ! Er i sawl un gael codwm, roedd pawb wedi mwynhau mas draw.

Adeg gwyliau'r Pasg, pan oedd Ysgol Gymunedol Tal-y-bont ar gau, bu rhai o'r aelodau hŷn - Eifion, Siôn, Gareth ac Elgan - wrthi'n ddyfal am ychydig nosweithiau yn creu cwrs chwarae i blant yr ysgol. Mawr obeithiwn y bydd y plant yn cael boddhad mawr wrth chwarae yno.

CSJ



Adeiladwyr y cwrs chwarae!

## Canlyniadau Clwb Cant CFFI Tal-y-bont Mis Ebrill

£20 G. Griffiths, Ffosygrafel Uchaf, Borth  
£15 John Evans, Gwargroes, Bronant  
£10 David Evans, Tanllan, Taliesin

## CANMLWYDD ADDFWYN A HYFRYD



Ar Ebrill 15fed dathlodd Mrs Margaret Ann Evans, Maesmawr gynt, ei phen-blwydd yn gant oed. Cafodd y cyfle i gyfarfod hen ffrindiau o Dal-y-bont mewn parti a gynhaliwyd yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth. Daeth tua hanner cant ynghyd i longyfarch Mrs Evans, gan gynnwys ei merch Ina Tudno Williams o Gapel Seion a'i mab, Geraint Evans Garnwen, ei hwyrion Haf a Tomos a Heledd a Dyfan, a'i gorwyrion Marged, Fred, a Meirion. Derbyniodd ddau gant o gardiau a chyfarchion. Yn y llun mae Mrs Evans yn mwynhau'r parti yng nghwmni Ina a Geraint.

# EGLWYS-FACH A FFWRNAIS

## Sefydliad y Merched

### Cwrdd mis Ebrill

Daeth Caroline De Carle o'r RSPB i siarad â ni. Diddorol oedd clywed am y gwaith a wneir yn Ynys Hir i weld pa gynlluniau sydd ar y gweill. Cawsom gyfle wedyn ar ddydd Sadwrn i fynd am dro i Ynys Hir i weld y gwaith sydd wedi digwydd hyd yn hyn. Ar ôl y daith cawsom de yng nghartref un o'r aelodau, Penny Condry. Roedd wedi paratoi gwledd ar ein cyfer, ac yr ydym yn ddiolchgar iawn iddi.

### Cwis

Bu cwis olaf y tymor ar y 6ed o Ebrill. Yr enillwyr oedd Vic Bamford, Judith Pearson, Lilian Hughes a Wendy Fuller. Diolch i Chris Fuller a Roy Bamford am drefnu'r noson. Penderfynwyd prynu rhagor o gadeiriau cyfforddus ar gyfer yr Ystafell Haearn gyda'r elw a wnaed ar y noson.

### RHODD

Dymunwn ddiolch i Mrs Barbara Jenkins, Hafod Ifan, Tre'r Ddôl, am ei rhodd i *Bapur Pawb*.

**CEFNOGWCH GYMRO LLEOL**

**H. LLOYD WILLIAMS**  
CYNNAL A CHADW GERDDI  
TORRI PORFA A SIETYN, GOSOD DECKING  
A SLABIAU

**DOES DIM YN ORMOD O WAITH!**

32 Bryncastell Ffôn: 01970 820699  
Bow Street Symudol: 07966 105519

## MERCHED Y WAWR TAL-Y-BONT A'R CYLCH

Noson yng ngofal un o'r aelodau a gafwyd ar 21 Ebrill pan fu Mai Leeding yn dangos sut i osod blodau mewn basgedi crog, a chafodd gymorth parod gan Tegwen Jones. Eglurodd pa fath o flodau i'w gosod mewn basgedi, a'r gyfrinach yw gosod hyd at ugain o blanhigion mewn basged fawr i greu arddangosfa liwgar drwy'r haf. Rhoddodd Mai y fasedd orffenedig i'w thynnu yn y raffl ar ddiwedd y noson, ac yn gymwys iawn, fe'i henillwyd gan Tegwen. Diolchwyd gan Diana Jones, ac Ann Humphreys a Non Griffiths oedd yng ngofal y te.

### Taith Gerdded

Cafwyd tywydd heulog a chynnes ar gyfer ein taith gerdded flynyddol ar ddydd Llun, 5 Mai dan ofal John a Mai Leeding. Teithiodd dros ugain ohonom, yn cynnwys gwŵr a ffrindiau, i Ddolgellau, a chael seibiant yno am awr i gael paned cyn mynd ymlaen i Benmaenpool lle cychwynnodd y daith. Aethom ar hyd Llwybr Mawddach i'r Bermo a gweld byd natur ar ei orau - y coed yn deilio, y perthi yn drwch o flodau, ynghyd â chreyr glas, elyrch, hwyaid a phob math o adar ar y foryd. Wedi rhai oriau o gerdded a mwynhau'r golygfeydd, aethom dros y bont i'r Bermo lle'r oedd y bws yn disgwyl amdanom i'n cludo'n ôl i Benmaenpool. Cafwyd pryd o fwyd blasus yng ngwesty George III cyn teithio adref ar hyd yr arfordir ar ôl diwrnod blinedig ond pluserus iawn. Diolchodd Medi i John a Mai am drefnu taith gerdded fendigedig ar ein cyfer unwaith eto.

CB



Criw taith gerdded Merched y Wawr, Tal-y-bont ar Lwybr Mawddach

**nafiliwnbont**  
pwyllwngol

**08**

**digwyddiadau mehefin**

Ffôn: 01974 831635

**FFAIR GELF A CHREFFTAU**

Gwener 08/06/08, 7pm

**'Dathliad Camp Lawn 08' - MAX BOYCE £20**

Gwener 08/06/08, 8pm

**NOSON DARTS**

Arddangosfa aelodau yng nghwmni Mark Webster, Bobby George, £12.50  
Iona Galtner a Richie Burnett

Sul 22/06/08, 7pm

Enillwyr yr Urdd 08 a **CATRIN FINCH**

Trefnir ar y cyd a'r Urdd ar gyfer apel Ffestivaethol Genedlaethol yr Urdd Ceredigion 2010 £8/£5

Gwener 08/06/08, 7pm

**CERDDORFA OPERA CENEDLAETHOL CYMRU**

Rhiys Meirion a Camilla Roberts £15

Gwener 08/06/08, 7pm

**GIG MAWR BONT 08**

Gwener - Strydau, Radio Llanymddydd, Yr Eidd, Mawddach, 8pm £8 (£10 wrth y drws)  
Sadwrn - How Chwefl, Gai Benn, Dolgellau, Her Friar, Brygwr, 8pm £10 (£12.50 wrth y drws)

**01974 831635**

## Gwobr Gweithiwr Fferm y Flwyddyn

Mae NFU Cymru wedi lansio Gwobr Gweithiwr Fferm y Flwyddyn 2008, sy'n cydnabod y rôl hanfodol sydd gan weithwyr yn y diwydiant ffermio. Gwahoddir ceisiadau trwy Gymru gan, neu ar ran gweithwyr rhan neu lawn amser sydd wedi bod mewn cyflogaeth ers o leiaf bum mlynedd

Mae'r Wobr, sydd nawr yn ei phedwaredd flwyddyn, wedi ei noddi gan Fanc NatWest. Bydd yr enillydd yn derbyn gwobr o £500 a thlws Cymdeithas Frenhinol Cymru, gyda'r ddau ail orau'n derbyn £100 yr un.

Meddai Edmund Bailey, Is-Lywydd NFU Cymru: "Oni bai am ymdrechion cyson a dibynadwy gweithwyr fferm, ni fyddai nifer o ffermydd Cymru yn llwyddo. Mae'n holl-bwysig ein bod yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr gweithwyr yn y diwydiant, ac mae'r wobwr yma yn fodd o wneud hynny."

Enillydd y llynedd oedd Ernest Griffiths o Glunderwen, Sir Benfro sy'n gweithio i Walter Simon o fferm West Orielton. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Iau, 12 Mehefin 2008, a chyhoeddir enw'r enillydd ar ddydd Iau'r Sioe Frenhinol ar stondin NFU Cymru.

Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymgeisio am y Wobr gysylltu â NFU Cymru am fwy o fanylion a ffurflen gais. Ysgrifennwch at Wobr Gweithiwr Fferm y Flwyddyn, Tŷ Amaeth, Maes y Sioe Frenhinol, Llanelwedd, Powys, LD2 3TU. E-bost [sarah.jones@nfu.org.uk](mailto:sarah.jones@nfu.org.uk). Ffôn 01982 554 200.

**M & D PLUMBERS**

Plumbing & Heating

Prisiau Cynhwil  
Gostyngiad i Bensiynwyr  
Yswiriant Iwan.

**iphe**

Cyflwrch â Ni yn gartol ar  
01974 282624 / 07773978352

**S. F. BYRNE**

Adeiladwr a Saer Maen

Ffôn: 01970 832068  
M: 077626 20309

Gwneir pob math o waith

# Ysgol Gymunedol Tal-y-bont

Cystadleuaeth Hoci



Ar ddydd Gwener yr 2il o Fai bu dau dîm o Ysgol Tal-y-bont yn cystadlu yng nghystadleuaeth hoci 'Activate' ar gaeau amlbwrpas y Brifysgol. Roedd y timau wedi cael eu rhannu i mewn i ddau grāp, tîm A yn grāp 1 a thîm B yn grāp 2. Chwaraeodd tîm B bedair gêm yn erbyn timau cryf iawn sef Ysgol Gymraeg, Padarn Sant A, Ffynnonbedr a

Phenrhyn-coch. Dyma'r tro cyntaf i Steffan a Siôn chwarae hoci. Mi wnaeth pawb chwarae yn dda iawn.

Llwyddodd tîm A i ennill pob gêm yn ei grāp ond am yr un yn erbyn ysgol Plascrug gan gollu o 3-1. Roedd enillwyr grāp 1 yn chwarae yn erbyn yr ail o grāp 2 ac enillwyr grāp 2 yn erbyn yr ail o grāp 1. Roedden ni yn erbyn yr Ysgol Gymraeg a llwyddon ni i guro nhw o 2-1 gyda Ryan yn sgorio gôl arbennig yn yr eiliadau olaf! Enillodd Plascrug yn erbyn Penrhyn-coch felly ni a Phlascrug sydd trwyddo i'r rownd nesaf yn y Drenwydd ym mis Mehefin. Llongyfarchiadau i ddau dîm Tal-y-bont. Diolch yn fawr iawn i'r rhieni am fynd â ni.

Gwenno Evans, Blwyddyn 6

Cafodd plant Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 fore arbennig iawn yng Nghanolfan y Celfyddydau ar Ddydd Mawrth, Ebrill 29 gyda'r artist Ruth Jên. Bu'r plant wrth eu boddau'n tynnu lluniau gan ganolbwyntio ar wahanol siapiau a defnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau.

Diolch o galon i Ruth am fore mor ddiddorol a chyffrous.

Miss Catherine

## Papur Pawb 25 mlynedd yn ôl



**Y rhes gefn o'r chwith:** Alistair Rhodes, Jonathan Thorne, Susie Moore, ?, Lisa Briddon, Sian Smith, Huwel Manley, Barry Rowlands, Hayley Kniverton, Robert Parry Jones, Owain Huw, Aled Jenkins.

**Y rhes flaen o'r chwith:** Douglas Wells, Dylan Morgan, Peachey Cox, Janet Roberts, Janine James, Deri Roberts, Ceri Davies, Dwynwen Morgan, Susan Rowlands, Catrin Williams, Karen Roberts, Lefi Gruffudd, Eirian Jones.

**NODER:** Tynnwyd y llun fis diwethaf, sef llun o *Papur Pawb* Ebrill 1983, o gefnogwyr Sioe Llangynfelyn yn eu cinio blynyddol yn y Llew Du.

# O'r Cynulliad – Elin Jones AC



Erbyn i chi ddarllen y golofn hon bydd holl gyffro'r ymgyrchu ar gyfer etholiadau Cyngor Sir Ceredigion wedi mynd a dod ac rwy'n llongyfarch y cynghorwyr newydd ac yn edrych ymlaen at gydweithio gyda hwy yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Yn ychwanegol i'r ymgyrch Cyngor Sir, mae dyfodol ein Swyddfeydd Post yng Ngheredigion wedi parhau i hawlio fy sylw yn ystod yr wythnosau diwethaf. Rwyf wedi mynychu cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus ar hyd a lled Ceredigion i wrthwynebu cynlluniau'r Post Brenhinol i gau'r Swyddfa Bost leol, ac mae'n


amlwg iawn bod y trigolion lleol yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth y mae'r postfeistri lleol yn ei gynnig. Rwy'n gobeithio'n fawr fod cynrychiolwyr y Post Brenhinol a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn Neuadd Tal-y-bont wedi talu sylw i'r teimladau cryf yma yn y gymuned leol ac fe hoffwn atgoffa'r trigolion bod ganddynt tan 19 Mai 2008 i fynegi eu barn yn ysgrifenedig i swyddogion y Post Brenhinol.

Wrth i'r nifer o Swyddfeydd Post leihau, dim ond dros y ffôn neu ar y we y gellir cael mynediad at rai gwasanaethau mewn nifer o gymunedau gwledig erbyn hyn. Mae'r ffaith nad oes gan rannau o Geredigion y modd i dderbyn cysylltiad rhyngurwyd fand-eang, felly, yn fy mhoeni'n fawr. Dros y misoedd diwethaf rwyf wedi bod yn casglu manylion trigolion Ceredigion sy'n wynebu'r drafferth yma ac fe gwrddais â Dirprwy Brif Weinidog y Cynulliad, Ieuan Wyn Jones AC, yn ddiweddar i drafod y mater. Roeddwn yn falch iawn o glywed bod Llywodraeth y Cynulliad bellach mewn trafodaethau gyda BT a chwmnïau telathrebu eraill i weld sut y gallant ddelio â'r broblem hon sy'n effeithio ar nifer o gymunedau ar draws Ceredigion.

Yn olaf, roedd yn fraint fawr i gael agor bore coffi Cymdeithas Clefyd Parkinson yn Neuadd Waunfawr, Aberystwyth, yn ddiweddar. Roedd y digwyddiad yn nodi wythnos arbennig i godi ymwybyddiaeth am y clefyd ac roedd yn gyfle i gwrdd â dioddefwyr Parkinson o'r ardal leol.

Elin Jones AC

**Argraffu 5-lliw  
a gwasanaeth di-ail:  
holwch Paul am bris  
ar [paul@ylolfa.com](mailto:paul@ylolfa.com)**



**ylolfa**  
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE  
01970 832 304  
[ylolfa@ylolfa.com](mailto:ylolfa@ylolfa.com)  
[www.ylolfa.com](http://www.ylolfa.com)

# Tîm Talwrn Tal-y-bont

Cafodd y tîm lleol hwyl arni yn rownd ddiweddaraf y Talwrn radio, gan golli o un marc yn unig i'r Glêr. Dyma flas ar y cynnyrch.

## Cwpled Caeth yn cynnwys y gair iâr

Henri ddaw, yr hen iâr ddu,  
Ai ceiliog yw yn celu?

Siwan Gwyndaf

## Limrig yn ymwneud â Theithio

Mewn Trôns a *string vest* safai Willi,  
A Beti mewn dim ond *bikini*,  
'Roedden nhw yn Nepal,  
Ond y bags "not at all",  
'Roedd rheiny ar ôl yn Hawaii.

Wyn Thomas

## Englyn yn cynnwys y geiriau 'Rhyw Ddydd'

Rhyw ddydd fe driâ'i ddod - i ddeall  
Addewid y Drindod,  
Ac Atat dof i ddatod  
Direswm gwlwm Dy gôd.

Gwyn Jenkins

## Cân: Dirgelwch

Rôl codi o'i hamoc ar fore Dydd Llun,  
A phori drwy'r *Guardian*, roedd Suzy yn flin  
Wrth weled Mynachod Tibet yn cael cam.  
Un gadarn oedd Suzy o blaid y di-nam.

Hel enwau ar ddeiseb dydd Mawrth aeth â'i bryd,  
Oherwydd i wraig o Nigeria gael stîd,  
A Chwrdaid Twrci ydoedd testun ei llith,  
Wrth flogio'n ddiddiwedd o glydwch ei nyth.

Ddydd Mercher, dros *muesli*, aeth Suzy yn grac,  
Wrth glywed fod gweithwyr Sri Lanka'n cael sac  
Am berthyn i Undeb, felly aeth ar y We  
A llywodraeth Colombo gath glywed ei phle.

Bu'n gwarchod madfallen drwy fore dydd lau,  
A nofio 'da dolffin drwy'r pnawn yn y bae,  
Ddydd Gwener, bu'n hwrjio rhyw fagiau jiwt  
A wnaethpwyd mewn *co-op* gan Indiaid ciwt.

Pam felly bod Suzy a miloedd o'i bath  
Yn flin am fod Cymru yn hawlio'r run fath  
O urddas a roddir i wledydd rhydd,  
A gobaith i'w phobl ar doriad dydd.

Phil Davies

## Cywydd teyrnged

Er y 'Dolig a'r dwli,  
y rwtsh a'r geriach di-ri,  
y gemau a'r ffilmiau ffôl,  
y twr o wast materol,  
haf bach a ddaeth i'm Tachwedd,  
a gwawr y gwanwyn i'm gwedd.  
Er yr hirnos, trwy'r oerni  
daeth rhin Mehefin i mi  
yn rhwydd. Daeth hapusrwydd pur;  
un annwyl a wnaeth synnwyr  
o fis y rhoi. Profais rin  
Nadolig – ganwyd Elin.

Anwen Pierce

## Pennill Dychan: Seicolegwyr

Paham y testun, fe hoffwn glywed,  
Ai Freudian slip yr oedd e, tybed?  
Oes ODewiPws complex yno'n celu;  
Rhyw atgof, rhyw broblem yno'n llechu?  
Paham, yw'n cwestiwn er mwyn cael gwybod  
Holl ddyfnderoedd yr isymwybod.

Phil Thomas

## Englyn Cywaith: Mesen

A yw dy log yn ddiogel - yn y banc,  
Er bod cwmp anochel  
Yn aros dros y gorwel  
I nyth y rheiny sy'n hel?

Phil Davies

## Telyneg: Cwmp

Weithiau mae'n rhaid i ffatri gau;  
dim marchnad i'r cynnyrch,  
a'r cwmni'n methu

A'r gweithlu,  
yn deulu o ddynion,  
yn cydweithio fel peiriant cywrain,  
cyn cael eu gwasgaru,  
a'r dwylo dyfeisgar,  
yn awr, yn segur  
neu'n llenwi silffoedd Tesco  
i sãn storïau gwag *Ok* a *Hello*.  
Diflannodd yr urddas gynt  
a oedd yn creu,  
tu ôi i'r gatiau cau.

O dan yr un haul ond gwahanol wawr,  
ar lawr yng nghysgod y palmwydd;  
gorweddaï'r gâr mewn chwys gwsg.  
Bloeddiodd,  
ciciodd a dyrnodd yr awyr,  
ond ni thrawodd yr aer o'i gwmpas.

Nid oedd y llaw a oedd yn llywio'r ychen  
na'r droed a gerddai tu ôl i'r arad,  
yno mwyach.

Ar ôl y ffrwydriad,  
yn fyddar i'w sgrechiadau ei hun,  
cofiodd iddo  
faglu ar wreiddyn;  
un cam gwag ar ddyfais o dramor  
a oedd yn llechu  
o dan bridd ei dir.

Weithiau,  
mae'n rhaid i ffatri gau.

Phil Thomas

## Englyn ar y Pryd: Blinder

Yno'n daer, rhedwn ein dau – dros y fron,  
yn wirion am orïau;  
Ond syrth y cwyr, mae'n hwyrhau,  
Awn yn glou i'n gwelyau.

Phil Davies

# Mrs Hilda Thomas, Cwmere



Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs Hilda Thomas, Cwmere ar ddydd Sadwrn, 5 Ebrill 2008 yn 94 mlwydd oed. A chyda'i hymadawiad collwyd un o gymeriadau hynotaf ardal *Papur Pawb*. Doedd hi ddim yn rhy hoff o gael ei galw'n Mrs Thomas, gan mai Hilda oedd hi i bawb. Treuliodd y cyfan o'i hoes fwy neu lai o fewn ei milltir sgwâr gan gyfrannu'n helaeth iawn i fywyd y gymdeithas wledig hon yr oedd yn gymaint rhan ohoni. Ganwyd hi yng Nghwmere, Bont-goch ym mlwyddyn gyntaf y Rhyfel Mawr, yr hynaf

o bump o blant i David a Mary Anne Evans. Hanai ei thad o deulu mawr a fagwyd yn Nantyperfedd. Byddai ef yn cystadlu weithiau mewn eisteddfodau ar waith coed a barddoniaeth, megis yn 'steddfod Esgair Hir. Roedd ei mam yn ferch i deulu'r Peate o Lanbrynmair, teulu cerddorol oedd yn canu'r delyn a'r ffidil. Ac roedd mam-gu Hilda yn chwaer i David Mason (Grugog), y bardd adnabyddus o Fwlchydderwen a Lerpwl yn ddiweddarach.

Pan oedd yn bump oed aeth Hilda i Ysgol Elerch, Bont-goch ac yna i Ardwyn, Aberystwyth. Ond ergyd drom i'r teulu oedd colli ei mam pan oedd Hilda yn naw oed yn 1923. Tra oedd yn Ardwyn byddai Hilda yn lletya yn Aberystwyth yn ystod yr wythnos gan ddychwelyd i Gwmere bob nos Wener. Disgyn oddi ar y bws yn y Lôn Groes yn Bow Street a chydgerdded adre gyda'r plant eraill o'r Bont-goch a'r cylch oedd yn Ardwyn, yn hytrach na mynd ymlaen i Dal-y-bont oedd yn agosach i'w chartref, er mwyn arbed y geiniog o wahaniaeth yn y pris. Yn bymtheg oed gadawodd yr ysgol a dychwelodd i Gwmere i ofalu am y teulu. Ergyd arall drom i'r teulu oedd colli Dorothy Ann ei chwaer yn 1944 a hithau ond yn 25 oed mewn damwain erchyll adeg yr Ail Ryfel Byd pan ddisgynnodd awyren ar y baracs yr oedd hi ynddo.

Ar ddiwedd y 1930au cyfarfu Hilda â David Alwyn (Alec) Thomas o ardal Prengwyn, Llandysul oedd yn gweithio i gwmni Crosville yn Aberystwyth ar y pryd a phriodasant gan ymgartrefu yng Nghwmere. Ganwyd iddynt ddau o blant, sef Barbara a John. Chwith meddwl bob ugain mlwydd union er pan fu Alec farw'n frawychus o sydyn yng ngwanwyn 1988. Treuliodd Hilda ei holl fywyd yng Nghwmere ar wahân i'r ddwy flynedd a hanner ddiwethaf pan ymgartrefodd gyda Barbara yn Hafod Ifan, Tre'r-ddôl. Drwy gydol ei hoes fe gyfrannodd yn helaeth i fywyd cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol yr ardal. Roedd yn aelod gweithgar yn Eglwys Elerch. Bu'n warden yr eglwys am dros ddeugain mlwydd ac yn ysgrifenyddes cyngor plwyf eglwysig Elerch am nifer o flynyddoedd.

Pan sefydlwyd *Papur Pawb* yn 1974 un o'r colofnau yn y rhifyn cyntaf un oedd colofn Hilda dan y pennawd 'Bobol Annwyl gan Mab y Mynydd'. Dros y blynyddoedd daeth y golofn honno'n rhan annatod o'r papur a hi hefyd oedd gohebydd lleol Bont-goch hyd at y presennol. Yr hyn oedd yn gwneud ei chyfraniadau mor werthfawr oedd ei gallu arbennig i ddarlunio cymeriadau ac i gofio straeon a dywediadau. Fe gâi arwynebedd gwlad ac ardal ddylanwad aruthrol ar ei chymeriadau, ac mae ardal Bont-goch a'r mynydd-dir wedi magu amryw o gymeriadau gwreiddiol iawn erioed ynghyd â'r hiwmor arbennig a berthyn iddynt. Bu Hilda hefyd yn cystadlu llawer mewn eisteddfodau gan deithio gryn bellter i ambell un. Gyda'r traddodiad barddonol a cherddorol yn amlwg yn ei theulu nid rhyfedd oedd iddi hithau ddilyn yr un trywydd. Roedd hi'n dda am ganu penillion gan ennill ym mhob

man. Hi oedd yn cyfansoddi'r darnau adrodd digri ar gyfer Alwyn Magor megis 'Cwrcyn Modryb Mari' a 'Nanny-goat Mam-gu'. Roedd i'w chlywed yn aml hefyd ar raglenni Radio Cymru yn sgwrsio gyda Hywel Gwynfryn a Sulwyn Thomas neu'n anfon gair mewn llythyr at Dei Tomos.


Er iddi ymgartrefu gyda Barbara ers dwy flynedd a hanner, fe dreuliodd gyfnodau yn ysbytai Aberystwyth a Machynlleth. Bu staff Ysbyty Twymyn, Machynlleth yn neilltuol o garedig a gofalus ohoni a dymuna'r teulu gydnabod hynny. Bu ei hangladd yn Eglwys Elerch ddydd Iau, 10 Ebrill ac arweiniwyd y gwasanaeth gan y Ficer y Parchg John Livingstone yn cael ei gynorthwyo gan y Parchg Neil Fairlamb, Rheithor Biwmaris a chyn-ficer yr eglwys, Mrs Lona Jones a'r Parchg W.J. Edwards a'r Parchg Evan Mason Davies. Roedd yr eglwys yn orlawn ac yn arwydd o barch mawr y gymdogaeth iddi. Cofiw'n gyda diolch am ei chwmni, ei chyfraniad helaeth a'i chroeso cynnes bob amser ar ei haelwyd yng Nghwmere.

Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu a'r cysylltiadau oll yn eu hiraeth a'u colled.

Hefin Llwyd

# Edward (Ted) Hubbard

Ar y 19 o Fawrth 2008, daeth llw o berthnasau, ffrindiau a chyn gyd-weithwyr ynghyd yn Amlogfa Amwythig i dalu'r gymwynas olaf i Edward (Ted) Hubbard. Ganwyd Ted yn Birmingham ar y 5 Chwefror 1930 ac yn fuan ar ôl iddo adael yr Ysgol Ramadeg fe symudodd Ted a'i rieni i fyw mewn tyddyn yng Nghwm Einion ger Ffwrnais. Bu'n gweithio am gyfnod gyda Chwmni Dyfi Woodlands cyn cael ei alw i ymuno â'r fyddin yn 1948 a bu'n gwasanaethu fel milwr yn Lybia cyn iddo gael ei ryddhau yn 1950. Yn 1952 fe ymfudodd i Seland Newydd lle bu'n gweithio gyda'r Comisiwn Coedwigaeth am bedair blynedd ac yna symudodd i Ganada lle bu eto yn gweithio gyda'r Cwmni Coedwigaeth.



Ar ôl dychwelyd i Cymru, fe fu'n byw yn Parcât ger Tre'r-ddol gyda'i fam ac fe fu'n gweithio yn adran nwyddau y Rheilffordd Brydeinig yn Llanbedr Pont Steffan cyn symud i weithio eto ar y Rheilffordd yn Amwythig. Yno fe gwrddodd â Gene Hughes a oedd yn hanu o Raeadr ac yn mis Mawrth 1964 fe briodwyd y ddau. Buont yn byw yn hapus iawn yn Amwythig ac yr oedd Ted yn dod adref bob pythefnos i gadw llygad ar ei fam a oedd yn dal i fyw yn Parcât. Yr oedd Ted yn ddyn eithriadol o ffit a heini, yn hoff iawn o gerdded a nofio ac yr oedd yn arddwr o fri. Treuliodd llawer o'i amser hamdden yn troedio ar Fannau Brycheiniog ac ar Y Berwyn ac yr oedd yn hoff iawn o grwydro ar hyd Clawdd Offa. Yn anffodus bu Gene farw yn 1999 a bu Ted yn alarus iawn ar ei hól ond yr oedd Ted yn ddyn trwsiadus iawn ac yr oedd ei gyfnod yn y fyddin wedi ei hyfforddi ar sut i ofalu amdano'i hun ac fe lwyddodd i gadw ei gartref i edrych fel palas bach hyd y diwedd.

Tua thair blynedd yn ôl dechreuodd ddangos symptomau o'r clefyd Motor Newron a bu dirywiad graddol yn ei iechyd ac yn ei flwyddyn olaf fe gollodd ei leferydd, ond nid oedd hyn yn mynd i lorio Ted - fe ddysgodd sut i anfon negeseuon testun ac yr oedd hynny yn rhoi llawer o bleser iddo.

Ar ôl ymdeol o'i waith fel gweithiwr yn nosbarth Ffyrdd a Thrafnidiaeth Sir Amwythig fe fyddai Ted yn dod o dro i dro i sefyll am benwythnos yn yr hen ardal ac yr oedd ganddo restr hir o ffrindiau i fynd i'w gweld cyn dychwelyd i Amwythig a hefyd yr oedd yn hanfodol cael galw yn y Llew Gwyn i gael glasiad yng nghwmni hen ffrindiau.

Treuliodd fisoedd diwethaf ei fywyd mewn cartref i'r methiedig a bu farw ar y 5 o Fawrth 2008 yn saithdeg wyth oed.



# Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Mae'r Cyngor wedi cyfarfod ddwywaith ers cyhoeddi rhifyn diwethaf *Papur Pawb*. Ar 14 Ebrill cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Cyngor i nodi safleoedd posib i'w clustnodi ar gyfer eu datblygu fel rhan o broses ymgynghori ar Gynllun Datblygu Lleol Cyngor Ceredigion 2007–2022. Eglurodd Cadeirydd y cyfarfod, y Cynghorydd Nest Jenkins, bod y gwahoddiad hwn wedi'i fwriadu ar gyfer perchnogion tir, asiantau a grwpiau cymunedol a'r cyhoedd. Nid oedd unrhyw sicrwydd y byddai'r safleoedd a awgrymid yn cael eu hymgorffori yn y Cynllun Datblygu terfynol, ond dyma'r unig gyfle am o leiaf 15 mlynedd oedd gan y Cyngor Cymuned i gynnig awgrymiadau o'r fath. Yn dilyn trafodaeth pasiwyd mai'r canlynol oedd prif anghenion y gymuned o ran datblygu tir: tai cymdeithasol/fforddiadwy, man agored/hamdden, meysydd parcio, rhandiroedd, a safle i ddatblygu cyflogaeth yn ymwneud â threftadaeth a thwristiaeth. Nodwyd pump o safleoedd posib yn Nhal-y-bont i'w datblygu i gwrdd â'r anghenion hyn ac anfonir yr awgrymiadau hyn ymlaen i'r Adran Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai.

Cynhaliwyd y cyfarfod misol arferol ar 28 Ebrill, dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, yn absenoldeb y Cynghorydd Glenys Edwards. Ymhlith y materion oedd yn codi pasiwyd ei bod bellach yn briodol i ohebu gyda'r Cyngor Sir i weld a yw'r ffordd o Dal-y-bont i Bont-goch ymhlith y rhai fydd yn cael blaenoriaeth i'w gwella yn ystod y flwyddyn ariannol 2008–09. Roedd y Cynghorydd Harry James wedi ymateb ar ran y Cyngor i'r adroddiad ymgynghorol ar gwmpasu'r arfarniad o gynnaladwyedd ac asesiad amgylcheddol strategol, sef y cam cyntaf yn y broses o lunio'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Roedd yr ymateb wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddiffygion yr adroddiad ar faterion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg a thai fforddiadwy/cymdeithasol.

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Hefin Jones, Heddwes Cymunedol Gogledd Ceredigion. Rhoddodd adroddiad am y datblygiadau diweddaraf yn dilyn cwyn y Cyngor am geir yn rasio'n swnllyd ym mhen ucha'r pentref. Adroddodd hefyd am y trafodaethau a gafodd gyda'r Cyngor Sir am beryglon y fynedfa i'r A487 o Ffordd Glanfred i'r de o Faesnewydd. Yn dilyn trafodaeth bellach, cytunwyd y byddai'r Heddwes Cymunedol yn cyflwyno awgrymiadau'r Cynghorwyr i'r Adran Priffyrdd. Rhoddodd ddiweddariad hefyd ar blismona'r defnydd o gerbydau 4x4 a beiciau modur yng nghyffiniau Nant y Moch yn ystod y Gwanwyn a'r Haf eleni. I gloi, roedd yn awyddus iawn bod y Cyngor yn rhybuddio trigolion y gymuned am rai oedd yn targedu'r henoed yn bennaf trwy eu twyllo eu bod wedi ennill arian ar y loteri ond bod yn rhaid iddynt yn gyntaf dalu £500 i yswirio'r wobr. Diolchodd y Cadeirydd i'r heddwes am ei waith gwerthfawr dros y gymuned.

Derbyniwyd neges gan Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol y Cyngor Sir, yn awgrymu bod y Cyngor Cymuned yn ystyried mabwysiadu'r Cod Ymddygiad newydd a gynhwysir yng Ngorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008. Cytunwyd i fabwysiadu'r Cod Ymddygiad newydd.

Cyflwynodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn adroddiad ar weithgarwch Grāp Gweithredu Achub y Swyddfa Bost yn ystod y mis. Mae cynrychiolwyr y tri Chyngor Cymuned o fewn ward Ceulanamaesmawr wedi cwrdd ddwywaith i gasglu tystiolaeth fydd yn ateb meini prawf y Swyddfa Bost, a llunnir llythyr ar ran y Grāp Gweithredu. Adroddwyd bod nifer dda o drigolion eisoes wedi llythyru gyda Swyddfa'r Post a pharatowyd taflen gan y Grāp i'w dosbarthu o dñ i dñ drwy'r ardal yn annog rhagor o drigolion i ohebu gyda'r Swyddfa Bost a hefyd i gefnogi'r swyddfa bost leol.

Derbyniwyd cadarnhad bod ceisiadau i ymestyn y caniatâd cynllunio hyd 2013 wedi eu derbyn gan yr Awdurdod Cynllunio ar gyfer: (i) Mast Monitro Meteoregol Esgair Fraith (ii) Mast Monitro Meteoregol Coedwig Nant y Moch.

O dan unrhyw faterion eraill derbyniwyd neges ffôn gan un o drigolion y gymuned yn holi a oedd arosfan bws gyferbyn â'r Fferyllfa i rai oedd yn teithio i gyfeiriad Machynlleth gan fod bws X32 wedi gwibio heibio iddo heb aros. Pasiwyd i anfon llythyr at gwmni *Arriva* yn holi a oedd arosfan swyddogol yn y man hwn. Hefyd derbyniwyd cwyn bod plant yn chwarae pêl o flaen y tai ym Maes-y-deri gan fod y gwair yn y maes chwarae yn rhy uchel i'w galluogi i gicio pêl yno. Pasiwyd i fwrw golwg ar gyflwr y gwair a threfnu i'w dorri pe bai angen. Tynnwyd sylw'r Cyngor at ddiffygion gyda goleuadau stryd, y naill yn Maes-y-deri a'r llall yn Bont-goch. Pasiwyd i dynnu sylw'r awdurdodau priodol at y diffygion hyn.

Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf dau aelod, manteisiwyd ar y cyfle i ddiolch iddynt am eu gwasanaeth clodwiw i'r Cyngor Cymuned. Bu'r Cynghorydd Gwilym Roberts yn aelod o'r Cyngor am gyfnod o 40 mlynedd yn ddi-dor a'r Cynghorydd Harry James yntau'n aelod am dros 15 mlynedd. Wedi diolch i'r ddau am eu cyfraniad gwerthfawr dymunodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn yn dda iddynt i'r dyfodol. Ategwyd y diolchiadau hyn gan holl aelodau'r Cyngor. Gan nad oedd y Cynghorydd Gwilym Roberts yn bresennol yn y cyfarfod, pasiwyd i anfon llythyr ato yn diolch iddo am ei waith ac yn dymuno'r gorau iddo ef a Mrs Roberts.

## CYNGOR CYMUNED CEULANAMAESMAWR

Cyfarfod Blynnyddol


Nos Lun 19 Mai

am 7.30 yn

Ystafell y Cyfeillion,

Neuadd Goffa Tal-y-bont.

**Croeso i aelodau o'r cyhoedd**



# Ysgol Llangynfelyn

Llongyfarchiadau mawr i fand Ysgol Llangynfelyn a ddaeth yn gyntaf yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd Ceredigion ym Mhontrhydfendigaid. Bydd y band yn cystadlu yn y gystadleuaeth 'Band/Cerddorfa Blwyddyn 6 ac Iau' yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Conwy ym mis Mai. Dyma'r tro cyntaf ers blynyddoedd i blant Ysgol Llangynfelyn gyrraedd yr Eisteddfod Genedlaethol.

## Gweithgareddau amrywiol



Llongyfarchiadau i Nina Davies am ennill cystadleuaeth gwneud llusern y Flwyddyn Newydd Chineaidd gan Gymdeithas Confucius Prifysgol Llambled.

Aeth plant CA2 i Ganolfan y Celfyddydau i gymryd rhan mewn gweithdy cerameg ble buont yn ymweld â'r arddangosfa cerameg a gwneud plât o gacennau.



Braf oedd gweld cymaint o blant wedi gwisgo lan fel cymeriad o wlad arall ar Ddiwrnod y Llyfr. Ar yr un diwrnod cafwyd cinio arbennig i ddathlu pythefnos Masnach Deg. Yn y prynhawn bu'r plant i gyd yn gwneud bwydydd iach gan ddefnyddio cynnyrch

rhyngwladol Masnach Deg. Mwynhaodd pawb y blasu! Rydym nawr wedi derbyn ein tystysgrif o'r Sefydliad Masnach Deg i ddweud ein bod yn Ysgol Masnach Deg.

I ddathlu Diwrnod y Llyfr bu plant CA1 yn ymweld â Phentre Bach ac yn cwrdd â Jac y Jwc, Jaci Soch a'u ffrindiau.



Gwahoddwyd plant Blwyddyn 6 i'r Morlan i roi cyflwyniad 'Power Point' ar y gwaith a wnaethant i ennill y wobwr IMPETUS. Y bwriad oedd cyfleu cymaint o hwyl a gafwyd ac i annog mwy o gymdeithasau i gymryd rhan yn y dyfodol.

Aeth plant Blynyddoedd 5 a 6 i IGER i gymryd rhan mewn gweithdai ar y thema 'Amgylchedd Pawb'. Dysgodd y plant lawer am anifeiliaid, tyfu cnydau a sut i edrych ar ôl ein hamgylchedd.

Fel rhan o'r Æyl Ddrama 'Agor Drysau' bu plant CA2 yn Ysgol Rhydpennau i weld perfformiad o 'Hood in the Wood'. Mwynhaodd y plant y sioe yn fawr iawn.

Bu plant CA1 yn gweld perfformiad diddorol sef 'Naid yr Angel' yn Theatr y Werin. Er nad oedd geiriau yn y perfformiad roedd pawb wedi deall y stori gyffrous a mwynhau gweld yr angel yn perfformio ar y trampolîn.

Bu naw o fechgyn ac un ferch o Flynyddoedd 5 a 6 yn cystadlu yng nghystadleuaeth rygbi'r Urdd yng Nghlwb Rygbi Aberaeron.

Chwaraewyd pedair gêm galed ond er na fuont yn llwyddiannus, cafodd y plant brofiad buddiol iawn. Diolch i Mr Andrew Lewis am roi cymorth gyda'r hyfforddi. Cafwyd hwyl eto yn chwarae rygbi yn yr Æyl Rygbi a gynhaliwyd yng Nghlwb Rygbi Aberystwyth ar ddechrau'r tymor yma.



Ar ddydd Gwener Ebrill 18fed gwisgodd y plant a'r staff mewn dillad coch gwyn a gwyrdd i ddathlu diwrnod arbennig yr Urdd a chasglwyd £25.

Gwahoddwyd ymwelwyr gwahanol iawn i'r ysgol yn y prynhawn, sef anifeiliaid o'r Anifeilfa yn y Borth. Bu rhai plant yn gosod neidr anferth o gwmpas eu gyddfau...dewr iawn!

Tro plant CA1 i ymweld â Chanolfan y Celfyddydau oedd hi fore Mawrth Ebrill 22ain. Buont yn brysur iawn yn creu printiau adar yng nghwmni Ruth Jên.

Llongyfarchiadau i Maeve a Teilo Courtier-Lilley a Nina ac Archie Davies am gymryd rhan yn y 'Swimathon' yng Nghanolfan Hamdden Bro Ddyfi. Bu'r pedwar yn nofio am dros awr a chodwyd dros £150 i elusen Marie Curie.

Gan ein bod wedi colli allan ar sesiwn ola'r Urdd tymor diwethaf gofynnwyd i blant blwyddyn 6 drefnu noson i ddiddori eu ffrindiau. Lwcus i'r tywydd aros yn sych gan eu bod wedi trefnu cystadleuaeth rasys rhwystr. Bydd rhaid cofio'r syniadau erbyn y mabolgampau cyn ddiwedd y tymor!

**A DAVIES TRYDANOL**  
Tŷ Morben Isaf  
Derwenlas  
MACHYNLETH  
Powys SY20 8SR  
ALAN DAVIES Ffôn 01654 781213

Siop y Pethe  
Aberystwyth  
Llyfrau a Recordiau  
(01970) 617120

ANGEN  
Anifeiliaid Tew  
(i'w lladd mewn  
lladd-dy lleol)  
Cysylltwch â Tegwyn Lewis  
Capel Bangor 880627

K Hughes  
Plymio a Gwresogi  
Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi  
Gwasanaeth Boeler Olew  
01970 832129  
07761 917235

# GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,  
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini  
i'w gyrru eich hun

[www.davmorgarage.co.uk](http://www.davmorgarage.co.uk)

**Ffôn: 01970 832278**

# Ymwelwyr Prin



Os buoch yn teithio ar droed neu mewn car ar hyd y ffordd gefn rhwng Brynhyfryd a'r Ffald yn Nhal-y-bont yn ystod yr wythnosau diwethaf, efallai ichi ddigwydd sylwi ar ddau aderyn go ddiarth. Mae dwy betrisen goesgoch fel petaent wedi cartrefu yn y cyffiniau ac wedi dewis ymweld â gardd ambell dŵn. Un o'r tai hynny yw Glasgoed lle y maent yn ymwelwyr cyson. Dywedodd Goronwy a Tegwen Jones fod y petris yn dod i gael ychydig o gnau a bwyd adar bron bob bore a'u bod yn aml yn stelcian o dan gysgod y sietyrn. Maent yn adar eithriadol o dlws, ac yn ôl llyfr adar lolo Williams mae'r betrisen goesgoch yn aderyn prin iawn ar y tir isel. Nid oes gan Goronwy a Tegwen ddim syniad o ble y daethant, er bod Mr Wareing Braichgarw'n dweud bod ceiliog ac iâr petris wedi cartrefu ger ei dŵn ef y llynedd. Efallai fod rhywun yn magu petris yn lleol a bod y ddwy hyn wedi dianc. Os oes unrhyw un o blith ein darllenwyr yn gallu taflu goleuni ar hanes y petris, byddai'n dda gennym glywed. Yn sicr, y maent yn adar gwerth eu gweld.

Os am dacs neu fws mini

**CAMBRIAN**

**CABS**

Teithiau Pell ac Agos

01970 626292

**Afiaith**

Gwasanaeth Cymreithu

Proffesiwl + Postffôn  
Prifysgol + Personol

Merthyr Tydfil  
01495 761111

## SWDOCW

Sut i chwarae

Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9.

Enw:

Cyfeiriad:

Côd Post

Rhif Ffôn:

Atebion i Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont, erbyn 9 Mehefin

Enillydd Swdocw mis Ebrill oedd Gwilym Jenkins,  
Llety'r Bugail, Tal-y-bont.

9		8	5				
7					3	6	
	3				1		9
	9	5	3		8	7	6
				1			
	7	2	6		9	1	3
	8		1				7
		6	4				5
					2	9	3

# Chwaraeon

## Llwyddiant Chwaraewyr Tennis



Bu pedwar tîm o ddisgyblion Ysgol Llangynfelyn yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth Tennis Cymru yn Aberystwyth ar fore Llun Ebrill 21ain. Ar ôl cystadlu brwd aeth dau dîm, sef merched Blwyddyn 3 ac iau, a'r tîm cymysg Blwyddyn 5 ac iau, drwodd i gystadleuaeth de Cymru ym mis Mehefin. Pob lwc i'r ddau dîm. Diolch i Jenny Dingle unwaith eto am roi o'i hamser i hyfforddi'r plant. Maent yn ffodus iawn o gael yr holl brofiadau y mae Jenny a'i chynorthwyr yn ei gynnig, nid yn unig yn y cystadlaethau ond yn wythnosol yng Nghampau'r Ddraig.

## DAL I FRWYDRO



Fel yr adroddwyd yn y rhifyn diwethaf, mae tîm pêl-droed Tal-y-bont yn dal i frwydro i osgoi disgyn i ail adran Cynghair Aberystwyth a'r cylch. Wedi dechrau trychinebus i'r tymor, mae'r tîm wedi gwella'n aruthrol yn ystod yr wythnosau diwethaf ac wedi dringo o'r safle isaf yn yr adran.

Chwaraewyd gêm dyngedfennol yn erbyn y tîm sydd ar waelod yr adran, Eilyddion Prifysgol Aberystwyth, ar noson olaf Ebrill. Profodd Tal-y-bont yn llawer rhy gryf i'r myfyrwyr gan ennill yn hawdd o chwe gôl i ddim. Yn anffodus, wedi rhoi cosfa i'r myfyrwyr, tro bechgyn Tal-y-bont oedd hi i ddiodeff dridiau yn ddiweddar wrth i Ddolgellau eu curo o bum gôl i ddim. Serch hynny, wrth i'r papur fynd i'r wasg, mae Tal-y-bont yn parhau tri safle o waelod y tabl, uwchben Llanrhystud ac Eilyddion y Brifysgol.

## CRICED

Cafodd clwb criced Tal-y-bont ddechrau addawol i'r tymor newydd drwy guro Tregaron yn rhywydd yn y gêm gyntaf ar 26 Ebrill. Bowliwyd Tregaron allan am 54 rhediad yn unig a sgoriodd Tal-y-bont y 55 angenrheidiol am y fuddugoliaeth heb golli yr un wiced. Ceir mwy o hanes hynt a helynt y clwb yn y rhifyn nesaf.

## Llenwi Pced Clwb trwy Lenwi Amlenni

Daeth aelodau Clwb Pêl-droed Ieuenctid Tal-y-bont a'u rhieni i'r Neuadd Goffa un noson ym mis Ebrill i lenwi miloedd lawer o amlenni, a thrwy wneud hynny llwyddasant i godi £500 tuag at gostau rhedeg y Clwb. Mae'r llenwi amlenni yn ddigwyddiad blynyddol erbyn hyn, ac y mae'n gyfle i'r aelodau a'r cefnogwyr wneud eu rhan mewn awyrgylch cymdeithasol. Diolch a'r rheolwyr i bawb am eu cymorth.



Y bechgyn a'r merched yn cael hoe yng nghanol eu prysureb.

## GYMNASTEG

Llongyfarchiadau i Zoe Forster-Brown, Eglwys-fach, sy'n ddisgybl yn Ysgol Gymunedol Tal-y-bont, ar ei llwyddiant fel aelod o dîm o bedair yn cystadlu'n genedlaethol yng Nghaerdydd ar 26 Ebrill gan ddod i'r brig.



# TEIARS HUW LEWIS TYRES

Rhodfa'r Parc, Aberystwyth  
Ffôn: 01970 636774

**Am bris cystadleuol ar bob math o deiars, ecsôsts, ac ati, cysylltwch â gwasanaeth lleol...**

- Dewis eang o deiars
- Balansio Electronig
- Ecsôsts
- Tracio
- Brêcs
- Ar agor 6 diwrnod yr wythnos

